# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 24 AWST 2017 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | J E Burtonshaw | J P Curtice |
| A M Day | P Downing | C R Doyle |
| M Durke | E W Fitzgerald | R Francis-Davies |
| S J Gallagher | L S Gibbard | K M Griffiths |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | O G James | L James |
| M H Jones | P Jones | L R Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M A Langstone | M B Lewis | R D Lewis |
| W G Lewis | A S Lewis | C E Lloyd |
| P Lloyd | I E Mann | P M Matthews |
| C L Philpott | S Pritchard | C Richards |
| K M Roberts | B J Rowlands | P B Smith |
| R V Smith | R C Stewart | D G Sullivan |
| G J Tanner | W G Thomas | M Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | G D Walker | L V Walton |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, V M Evans, C R Evans, W Evans, F M Gordon, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, S M Jones, P N May, D Phillips, A Pugh, J A Raynor, M Sherwood, A H Stevens, M Sykes a/ac L G Thomas

51. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid ond llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

52. **CYFLWYNO TEITL HENADUR ANRHYDEDDUS YN UNOL AG ADRAN 249 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 - CYN-GYNGHORWYR R G DAVIES, J NEWBURY, I M RICHARD, R J STANTON & C THOMAS.**

Datganodd yr Arglwydd Faer fod y Cyngor wedi penderfynu mewn egwyddor i roi teitl Henadur Anrhydeddus i'r cyn-gynghorwyr canlynol, R G Davies, J Newbury, I M Richard, R J Stanton a C Thomas er mwyn cydnabod eu gwasanaeth hir ac amlwg i Ddinas a Sir Abertawe a'r awdurdodau blaenorol.

Daw'r teitl o'r hen deitl Saesnig "Henadur", sy'n golygu "dyn hŷn" yn llythrennol, ac fe'i defnyddiwyd gan y Prif Foneddigion a oedd yn llywyddu'r siroedd. Nid yw teitl Henadur Anrhydeddus yn wleidyddol.

Defnyddir y teitl yn Ninas a Sir Abertawe fel gwobr i unigolion er mwyn cydnabod eu gwasanaethau hir ac amlwg i'r Cyngor, ar yr amod bod y meini prawf wedi'u cyflawni.

**R G Davies**

Roedd y cyn-gynghorydd R G Davies yn gwasanaethu cymuned Glandŵr ac roedd yn Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 1994 i 1995. Roedd ei gyfnodau o wasanaeth yn cynnwys:

- Cyngor Dinas Abertawe. 12 Rhagfyr 1974 i 31 Mawrth 1996.

**J. Newbury**

Roedd y cyn-gynghorydd J Newbury'n arfer gwasanaethu cymuned Dynfant. Roedd yn Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 2015 i 2016. Roedd ei gyfnodau o wasanaethu'n cynnwys:

- Cyngor Dinas Abertawe. 7 Mai 1987 i 31 Mawrth 1996;
- Dinas a Sir Abertawe. 4 Mai 1995 i 4 Mai 2017.

**I M Richard**

Roedd y cyn-gynghorydd I M Richards yn gwasanaethu cymuned Mawr. Roedd yn Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 2011 i 2012. Roedd ei gyfnodau o wasanaethu'n cynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Dyffryn Lliw. 14 Tachwedd 1985 i 31 Mawrth 1996;
- Dinas a Sir Abertawe. 4 Mai 1995 i 4 Mai 2017.

**R J Stanton**

Roedd y cyn-gynghorydd R J Stanton yn gwasanaethu cymuned Sgeti. Hi oedd Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 2013 i 2014. Roedd ei chyfnodau o wasanaethu'n cynnwys:

- Cyngor Dinas Abertawe. 5 Mai 1988 i 31 Mawrth 1996;
- Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg. 4 Mai 1989 i 31 Mawrth 1996.

- Dinas a Sir Abertawe.  4 Mai 1995 i 4 Mai 2017.

**C. Thomas**

Roedd y cyn-gynghorydd C Thomas yn gwasanaethu cymuned Mynydd-bach.  Hi oedd Arglwydd Faer Dinas a Sir Abertawe o 2014 i 2015.  Roedd ei chyfnodau o wasanaethu'n cynnwys:

- Cyngor Dinas Abertawe.  23 Mai 1990 i 31 Mawrth 1996;
- Dinas a Sir Abertawe.  4 Mai 1995 i 4 Mai 2017.

Talodd arweinwyr pob un o'r Grwpiau Gwleidyddol a rhai o'r Cynghorwyr eraill deyrnged i wasanaeth hir ac amlwg y cyn-gynghorwyr hyn, gan ddatgan eu bod wedi gwasanaethu am dros 136 o flynyddoedd.

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran 249 Deddf Llywodraeth Leol 1972, roi teitl Henadur Anrhydeddus i'r cyn-gynghorwyr R G Davies, J Newbury, I M Richard, R J Stanton a C Thomas er mwyn cydnabod eu gwasanaeth hir ac amlwg i Ddinas a Sir Abertawe a'r awdurdodau blaenorol.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.39 pm

**CADEIRYDD**